

At sylw:
Swyddog Cyfrifol



Mehefin 2017

Annwyl Swyddog Cyfrifol

Grant Cymorth i'r Gymraeg: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2017-18

Mae'r llythyr hwn yn wahoddiad i gyflwyno Mynegiant o Ddiddordeb ar gyfer Grant Cymorth i'r Gymraeg Blwyddyn Academaidd 2017-18 ar gyfer cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol.

Mae'r llythyr yn cwmpasu:

- Gwneud cais am y cyllid
- Meini prawf sgorio a chostau cymwys ar gyfer cyllid
- Y broses cyflwyno Mynegiant o Ddiddordeb
- Cysylltiadau allweddol Cymwysterau Cymru

Gwneud cais am y Cyllid

Bydd Cymwysterau Cymru ond yn ystyried ceisiadau gan gyrrff dyfarnu cydnabyddedig. Ni fyddwn yn ystyried mwy nag un cais gan un corff dyfarnu o dan yr un categori (gweler isod).

Rydym yn rhannu ceisiadau yn ddau gategori:

- Ar gyfer cyrff dyfarnu sydd am **drefnu bod cymhwyster ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg am y tro cyntaf** ac felly a fydd yn disgwyl arian cyn dechrau'r gwaith;
 - Mae Mynegiant o Ddiddordeb yn orfodol; y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw **dydd Gwener 4 Awst 2017**;
 - Rhaid cyflwyno ceisiadau llawn erbyn **dydd Gwener 20 Hydref 2017 fan bellaf**;
 - Gellir ond gwneud ceisiadau ar gyfer gwaith a gwblhawyd yn y flwyddyn ariannol 2017-18;
 - Mae'n rhaid i dystiolaeth ategol ac anfonebau gyrraedd Cymwysterau Cymru erbyn **ddydd Mercher 21 Mawrth 2018 fan bellaf**.

- Ar gyfer cyrff dyfarnu sydd **ar hyn o bryd yn darparu asesiadau cyfrwng Cymraeg** ac yn ceisio cymorth ariannol ar gyfer gwaith cyfieithu parhaus:
 - Mae Mynegiant o Ddiddordeb yn orfodol; y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw **dydd Gwener 4 Awst 2017**;
 - Rhaid cyflwyno ceisiadau llawn erbyn **dydd Gwener 15 Rhagfyr 2018 fan bellaf**;
 - Gellir ond gwneud ceisiadau ar gyfer gwaith a gwblhawyd yn y flwyddyn ariannol 2017-18;
 - Mae'n rhaid i dystiolaeth ategol ac anfonebau gael eu derbyn gan Cymwysterau Cymru erbyn **dydd Mercher 21 Mawrth 2018 fan bellaf**.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y broses hon a'r rhesymeg y tu ôl iddi isod.

O.N Rydym yn annog cyrff dyfarnu i gyflwyno eu ceisiadau cyn gynted â phosibl, gan fod y broses o adolygu a dyfarnu grantiau yn un barhaus, ac yn dechrau unwaith y caiff y cais cyntaf ei dderbyn. Caiff y ddau gategori eu dyfarnu o'r un gronfa.

Meini Prawf Sgorio a chostau Cymwys ar gyfer Cyllid

Byddwn yn asesu'r holl geisiadau wedi'u cwblhau yn erbyn y meysydd canlynol allweddol:

- **Galw** – Disgwylir i gyrff dyfarnu ddarparu tystiolaeth yn dangos lefel y galw/y galw tebygol ar gyfer y cymhwyster/cymwysterau
- **Polisi a Mentrau** - Mae'n rhaid i gyrff dyfarnu ddangos sut mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o'r cymhwyster/cymwysterau yn cyfateb i bolisiau neu fentrau penodol.
- **Sicrhau Ansawdd** – Disgwylir i gyrff dyfarnu ddarparu tystiolaeth o'u gallu i sicrhau ansawdd eu gweithgareddau grant. Gall dogfennau proses Sicrhau Ansawdd Mewnol gefnogi hyn, ond ni fyddant yn darparu digon o fanylion ar eu pen eu hunain.
- **Cynaliadwyedd** – Disgwylir i gyrff dyfarnu ddarparu tystiolaeth yn dangos y ffordd y maent yn bwriadu cefnogi'r cymhwyster/cymwysterau yn y tymor hir.

Gellir defnyddio'r cyllid a hawlir at y dibenion canlynol yn llwyr:

- Y rheini sydd **uwchlaw costau cyfrwng Saesneg cyfatebol**.
 - Er enghraifft, os bydd argraffu 500 o bapurau arholiad cyfrwng Cymraeg yn costio £x tra bydd ychwanegu 500 at y nifer o bapurau cyfrwng Saesneg sy'n cael eu hargraffu yn costio £y, bydd Cymwysterau

Cymru yn fodlon cefnogi'r costau ychwanegol wrth argraffu'r papurau cyfrwng Cymraeg h.y. £x-£y.

- Costau gweinyddol **sydd uwchlaw'r costau cyfrwng Saesneg cyfatebol** a all gynnwys costau staff uniongyrchol – swyddogion golygyddol, clerod pwnc, gweithredwyr prosesu geiriau.
- Costau cyfieithu sy'n disgyn o fewn yr ystod £70-£90 am bob 1,000 o eiriau, yn unol â chytundeb fframwaith Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfieithiad Cymraeg.
- Cyfieithu dogfennau megis (ond heb fod yn gyfyngedig i) astudiaethau achos dysgwyr, canllawiau a theitlau cymhwyster, unedau cymhwyster, canllaw i farcwyr, llyfrau gwaith dysgwyr, manylebau, asesiadau byw, ymatebion dysgwr, gwaith dysgwr.

Proses Cyflwyno Mynegiant o Ddiddordeb

Rydym yn atgoffa cyrff dyfarnu sy'n dymuno gwneud cais am Grant Cymorth i'r Gymraeg bod yn **rhaid** cyflwyno Mynegiant o Ddiddordeb.

Yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn y Mynegiant o Ddiddordeb:

- Cyfanswm y costau amcangyfrifedig ar gyfer yr holl waith y mae'r corff dyfarnu yn dymuno ei wneud yn y flwyddyn ariannol 2017-18 sy'n gynnwys ar gyfer cyllid Grant Cymorth i'r Gymraeg.
- Disgrifiad clir o deitlau'r cymhwyster/cymwysterau y bwriedir eu cyfieithu.
- Proffil(au) talu o'r ceisiadau a wneir yn erbyn y cyfnod(au) gwneud cais a amlinellir isod.
- Manylion cyswllt allweddol ar gyfer tri phersonél arweiniol yn y corff dyfarnu.

Pwyntiau allweddol ar gyfer cyrff dyfarnu sy'n gwneud cais i gymhwyster fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg am y tro cyntaf:

- **Rhaid** cyflwyno Mynegiant o Ddiddordeb.
- Caiff pecynnau gwneud cais eu hanfon i gyrff dyfarnu ar ôl y terfyn amser Mynegiant o Ddiddordeb sef **dydd Gwener 4 Awst 2017**.
- Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais llawn: **Dydd Gwener 20 Hydref 2017**.
- Cyfnod(au) gwneud cais: **Os ydych yn gwneud cais am lai na £10,000**, mae'n rhaid i'r corff dyfarnu nodi cyfnod gwneud cais rhwng mis Tachwedd 2017 a mis Mawrth 2018 pan fyddant yn cyflwyno'r cais gyda'r holl dystiolaeth a dogfennau ariannol cysylltiedig. **Os ydych yn gwneud cais am dros £10,000**, mae'n rhaid i'r corff dyfarnu nodi uchafswm o **ddau** gyfnod gwneud cais

rhwng mis Tachwedd 2017 a mis Mawrth 2018 pan fyddant yn cyflwyno'r geisiadau gyda'r holl dystiolaeth a dogfennau ariannol cysylltiedig.

- Nid yw cyrff dyfarnu yn ymrwymedig i gostau amcangyfrifedig fel y'u nodir yn y Mynegiant o Ddiddordeb; fodd bynnag, ni fydd Cymwysterau Cymru yn disgwyl i geisiadau fod yn sylweddol uwch na'r hyn a amcangyfrifwyd.

O.N Caiff cyfnod gwneud cais ei ddiffinio fel un mis calendr. Os yw corff dyfarnu yn nodi mis Mawrth fel un cyfnod gwneud cais, caiff y cyfnod ei ddiffinio fel 1-21 Mawrth yn ôl y terfyn amser ar gyfer yr holl geisiadau a gyflwynir ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18.

Pwyntiau allweddol ar gyfer cyrff dyfarnu sy'n gwneud cais am gymorth ar gyfer gwaith cyfieithu parhaus y maent yn ymrwymedig i'w ddarparu:

- **Rhaid** cyflwyno Mynegiant o Ddiddordeb. Caiff pecynnau gwneud cais eu hanfon i gyrff dyfarnu ar ôl y terfyn amser Mynegiant o Ddiddordeb sef **dydd Gwener 4 Awst 2017**.
- Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais llawn: **dydd Gwener 15 Rhagfyr 2017**.
- Cyfnod(au) gwneud cais: **Os ydych yn gwneud cais am lai na £10,000**, mae'n rhaid i'r corff dyfarnu nodi cyfnod gwneud cais rhwng mis Tachwedd 2017 a mis Mawrth 2018 pan fyddant yn cyflwyno'r cais gyda'r holl dystiolaeth a dogfennau ariannol cysylltiedig. **Os ydych yn gwneud cais am dros £10,000**, mae'n rhaid i'r corff dyfarnu nodi uchafswm o **ddau** gyfnod gwneud cais rhwng mis Tachwedd 2017 a mis Mawrth 2018 pan fyddant yn cyflwyno'r geisiadau gyda'r holl dystiolaeth a dogfennau ariannol cysylltiedig.
- Nid yw cyrff dyfarnu yn ymrwymedig i gostau amcangyfrifedig fel y'u nodir yn y Mynegiant o Ddiddordeb; fodd bynnag, ni fydd Cymwysterau Cymru yn disgwyl i geisiadau fod yn sylweddol uwch na'r hyn a amcangyfrifwyd.

Cyflwyno eich Mynegiant o Ddiddordeb:

Dyddiad cau – Dydd Gwener 4 Awst 2017

Cyflwynwch Fynegiant o Ddiddordeb eich sefydliad gan ddefnyddio'r ffurflen sydd wedi'i hatodi i'r llythyr hwn a'i anfon, gan ddefnyddio'r teitl ***Mynegiant o Ddiddordeb Grant Cymorth i'r Gymraeg: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol 2017/18***, i :

Cymwysterau Cymru, Adeilad Q2, Lôn Pencarn, Parc Imperial, Coedcernyw, Casnewydd, NP10 8AR

Neu ei e-bostio i Grants@qualificationswales.org

Cysylltiadau allweddol Cymwysterau Cymru

- Rheolwr y Grant - Craig Prosser
- Deiliad y Gyllideb - Daniel Tromans
- Noddwr y Grant - Kate Crabtree

Rheolwr y Grant

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, [cysylltwch â'r rheolwr grant yn y cyfle cyntaf](mailto:Craig.Prosser@qualificationswales.org):

e-bost: Craig.Prosser@qualificationswales.org

ffôn: 0333 077 2778

Os hoffech drafod unrhyw beth yn y llythyr hwn, neu'r dogfennau cysylltiedig, cysylltwch â Cymwysterau Cymru a byddwn yn fwy na pharod i'ch helpu.

Cofion cynnes



Kate Crabtree

Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi ac Ymchwil, Cymwysterau Cymru